
# Adroddiad ar ymweliad â’r Unol Daleithiau ym mis Mai 2026

## Pwrpas ac amcanion yr ymweliad

Prif ddiben yr ymweliad oedd ymweld â Historic Tredegar yn Richmond, Virginia i ymchwilio i’r potensial i greu mwy o gysylltiadau â thref Tredegar yn fy etholaeth.





Yr ail ddiben oedd cyfarfod â staff Llywodraeth Cymru yn Llysgenhadaeth Prydain yn Washington i drafod gwaith swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn yr Unol Daleithiau ac i ymchwilio i’r potensial ar gyfer gwaith pellach i hyrwyddo Cymru yn yr Unol Daleithiau o safbwynt y Senedd.

## Cefndir

Sefydlwyd Gwaith Haearn Tredegar ar lannau Afon James ym 1836 pan aeth criw o ddynion busnes a diwydianwyr o Richmond ati i fanteisio ar dwf cynyddol y rheilffyrdd yn yr Unol Daleithiau. Cyflogodd y grŵp beiriannydd ifanc o’r enw Rhys Davies i adeiladu cyfleuster newydd. Daeth hwnnw â nifer o'i gyd-weithwyr haearn o Dredegar i adeiladu'r ffwrneisi a'r melinau rholio. Yna enwyd y ffowndri i gydnabod cyfraniad tref Tredegar.

Erbyn cyfnod Rhyfel Cartref America, Gwaith Haearn Tredegar oedd y gwaith haearn mwyaf yng Nghynghrair y De ac roedd hynny’n ffactor arwyddocaol yn y penderfyniad i wneud Richmond yn brifddinas. Darparodd Gwaith Haearn Tredegar tua hanner y magnelau a ddefnyddiwyd gan Fyddin y Gydffederaliaeth, yn ogystal â'r platiau haearn ar gyfer CSS Virginia, llong ryfel haearn gyntaf y Gydffederaliaeth. Llwyddodd y gwaith i osgoi cael ei ddinistrio gan filwyr pan gafodd y ddinas ei gwacáu, a pharhaodd i gynhyrchu haearn tan ganol yr 20fed ganrif. Bellach mae’n Ardal o Bwys Hanesyddol Cenedlaethol, ac mae'r safle yn gwasanaethu fel prif adeilad Amgueddfa Rhyfel Cartref America.

## Historic Tredegar heddiw




Bellach mae nifer o amgueddfeydd a nodweddion hanesyddol ar safle Gwaith Haearn Tredegar. Dyma linc i’r amgueddfa rhyfel cartref sy’n cynnig blas o’r safle fel y mae heddiw - https://acwm.org/historic-tredegar/ Ar ben hynny, mae rhywfaint o waith adeiladu yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddod a ddefnydd newydd i hen Siop y Gwaith a swyddfeydd Chwmni Haearn Tredegar, ynghyd ag awditoriwm awyr agored. Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn golygu y bydd safle Tredegar hefyd yn dod yn lleoliad celfyddydol o bwys yn y dyfodol wrth iddo warchod a gwella hanes y safle.

Cefais gyfarfod â Llywydd a Phrif Weithredwr yr amgueddfa, Dr Rob Havers ynghyd â Jeniffer Maloney, y Cyfarwyddwr Marchnata a Materion Cyhoeddus ac aelodau eraill o’r uwch-staff i drafod eu dealltwriaeth o rôl Rhys Davies ac eraill o Dredegar o ran sefydlu’r gweithfeydd a’u cyfraniadau eraill i ddinas Richmond.

Mae’r safle’n cynnig nifer o wersi i Dredegar ac i Gymru o ran dehongli a chadw ein hanes a’i wneud yn hygyrch i’r cyhoedd ac ymwelwyr. Canolbwynt yr amgueddfa yn amlwg yw Rhyfel Cartref America, ac er i gyfraniad peirianwyr a gweithwyr o dref Tredegar yn cael ei gydnabod fel rhan o'r hanes, nid oes unrhyw arddangosion na stori i gyfleu hanes sefydlu'r gwaith haearn. Nid oes unrhyw gysylltiadau mewn bod rhwng Cymru a’r rhan hon o Virginia. Mae’n amlwg bod cryn botensial i adeiladu ar yr hanes hwn er mwyn datblygu ymhellach ddealltwriaeth o’n hanes cyffredin ac i ddehongli’r hanes hwn ar gyfer y presennol. Ymddengys fod hanes sefydlu’r gwaith hwn a chyfraniad peirianwyr a gweithwyr haearn profiadol o Gymru yn hollbwysig yn natblygiad y diwydiant yn Richmond ac yn y rhan hon o Virginia. Mae hyn yn gyfle gwirioneddol i Gymru edrych ar sut y gallwn elwa ar ddealltwriaeth well a chynyddol o gyfraniad Cymru at ddatblygiad diwydiannol yr Unol Daleithiau.

**Prifddinas Talaith Virginia**



Yn ogystal ag ymweld â Historic Tredegar, manteisiais ar y cyfle i ymweld â phrifddinas Talaith Virginia a chwrdd â’r Seneddwr Lamont Bagby a'r Dirprwy Betsy Carr, sy’n cynrychioli Historic Tredegar yn Senedd a Thŷ'r Dirprwyon yn Virginia. Cyfarfûm hefyd ag uwch-swyddogion y Capitol i drafod meysydd o ddiddordeb cyffredin.

Cawsom drafodaeth dda ar hanes y ddinas a’r gweithfeydd haearn yn ogystal â sgwrs gadarnhaol iawn ar sut y gallwn barhau i ddatblygu cysylltiadau rhwng Richmond a Chymru yn y dyfodol. Mae cysylltiadau mwy a chyfoethocach na safle’r gwaith haearn yn unig. Ffynhonnell llawer o ddatblygiad cynnar Richmond fel dinas a’i chyffiniau diwydiannol oedd mewnfudwyr o Gymru a ddarparai’r wybodaeth, yr arbenigedd, y profiad a’r gweithlu a symbylai ddatblygiad y diwydiant haearn yn Richmond a gweddill Virginia wedyn. Mae yna hefyd awydd sylweddol i ddathlu a nodi'r hanes hwn mewn ffordd a fyddai’n caniatáu i genedlaethau'r dyfodol ddysgu am ein gorffennol a'i werthfawrogi.

**Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Washington**

Yn Washington, cyfarfûm â Dr Zowie Hay (Pennaeth Swyddfa Llywodraeth Cymru) ac Eoghan O'Regan (Dirprwy Bennaeth Swyddfa) sydd â’u swyddfeydd yn Llysgenhadaeth Prydain, yn ogystal â rhai o swyddogion y Swyddfa Dramor a ddarparodd gyd-destun ehangach drwy sesiynau briffio cefndirol ar gyfer yr ymweliad.

Ymdriniodd ein trafodaethau â gwaith swyddfa Llywodraeth Cymru a’i swyddfeydd eraill yn rhwydwaith gogledd America a'u blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.



Roeddwn hefyd yn awyddus i sicrhau bod cyfle i'r Senedd a'i Haelodau chwarae rhan ehangach yn y gwaith o godi proffil Cymru a meithrin cysylltiadau newydd â rhanddeiliaid allweddol, yn ogystal â chefnogi gwaith y Llywodraeth o bosibl. Cawsom sgwrs gadarnhaol iawn am y rhwydweithiau presennol, sy'n cynnwys deddfwrfeydd gwladwriaethol a'u hymwneud â seneddau a deddfwrfeydd is-genedlaethol ledled y byd.

Dyma rywbeth y byddaf yn parhau i'w ystyried, ei archwilio a'i ddilyn dros y flwyddyn i ddod. Mae yna hefyd gawcws Cyfeillion Cymru yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr lle gallai Senedd Cymru fod yn fwy perthnasol ac efallai gael mwy o effaith.

**Allbynnau a chasgliadau**

Llwyddodd yr ymweliad i gyflawni'r amcanion a bennwyd. Cefais gyfle i gwrdd â'r holl bobl yr oeddwn wedi bwriadu eu cyfarfod ac roedd y cyfarfodydd hynny'n gadarnhaol. Yn ogystal â hyn, roedd modd inni hefyd edrych ymlaen at sut y gallwn gynyddu'r proffil ymhlith rhanddeiliaid allweddol yn yr Unol Daleithiau. Dylai'r Senedd hefyd geisio arwain y gwaith o sefydlu a datblygu perthnasoedd rhyngseneddol.

Yn ogystal â hyn, byddwn hefyd yn gobeithio sefydlu rhaglen i ddatblygu cysylltiadau rhwng dinas Richmond a thref Tredegar. Cyn yr ymweliad, roeddwn wedi trefnu cyfarfod â'r awdurdodau lleol yn Richmond a byddaf hefyd yn cyfarfod â'r awdurdod lleol ym Mlaenau Gwent. Mae angen i'r flaenraglen gynnwys llywodraeth leol, ysgolion, a grwpiau cymunedol. O ystyried y pellteroedd dan sylw, ni fyddai'n realistig disgwyl perthynas efeillio debyg i'r hyn sydd gan lawer o drefi â chymunedau Ewropeaidd.

Fodd bynnag, mae modd sefydlu cysylltiadau dysgu, dealltwriaeth, trefniadol a gwleidyddol a diwylliannol rhwng y ddau le. Rwy'n ymwybodol bod cyfres ffilm yn cael ar y gweill am hanes y gwaith haearn ac mae'n ymddangos yn amser da i fanteisio ar unrhyw gyhoeddusrwydd y mae'r ffilm honno'n ei gynhyrchu.

Hoffwn nodi fy niolch personol i Eoghan O'Regan yn swyddfa Llywodraeth Cymru am y cymorth a roddodd i drefnu'r ymweliad ac am ei help i wneud y cysylltiadau yn Richmond a ganiataodd i mi gwrdd â phobl berthnasol a chynnal sgyrsiau mor gadarnhaol yn y ddinas. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru yn ehangach am ei chefnogaeth yn y gwaith hwn.

Alun Davies AS